YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XLVII. MAWRTH, 1947. RHIF 3.

Gweddi.

AGOR glust fy neall, Arglwydd,
Cyffro glyw drwy f'enaid i,
Fel y gallwyf yn gyfarwydd,
Wrando sain dy lafar di,—
Sain nas ceir mewn corwynt uchel,
Nac yng nghryn y ddaear lâs ;
Sain o'r nef yn fwynder tawel
Yw llais pêr dy nefol ras.

Agor lygaid fy nghydwybod,
Drwy serchiadau 'nghalon i,
Felly caf yn eglur ganfod
Lliw pob gwir sydd ynot ti ;
Lliw cyfiawnder, lliw trugaredd,
Rhyw dy ddeddfau di bob un ;
Harddwch, cariad, a thangnefedd,
Fel maent ynot ti dy hun.

Ennyn serch yng ngwreiddiau 'nghalon,
Fel y carwy'r rhain i gyd,
Fel y gwnelwyf dy gynghorion
O flaen dim a gâr y byd ;
Rho dy nerth, fel bo d'ewyllys
Ymhob peth a wnelwyf fi ;
Rho dy nerth, fel gallwy'n ddilys
Rodio hyd dy lwybrau di.

IOLO MORGANWG.

Iolo Morganwg.

Dau can mlynedd yn ôl (1747) y ganwyd Edward Williams, Iolo Morganwg, ac er nad oedd ond saer maen heb nemor o ysgol, os dim, na dim coleg, yr oedd yn un o ddynion mawr Cymru y ddeunawfed ganrif. Gan ei fod yn Undodwr, naturiol i ni ei gofio eleni.

Anodd yw atgyfodi oes a chyfnod, ac ni fedrwn ond rhoi nodiad neu ddau er ceisio dwyn yr oes yn ôl atom. Yr oedd Cymru yr adeg honno yn dra gwahanol i Gymru heddiw. Nid oedd ffyrdd ar draws gwlad ond llwybrau defaid a ffyrdd y porthmyn. Ar hyd-ddynt gyrrid da wedi'u pedoli i Loegr, a ffyrdd truenus o wael oeddent. Gyda llaw, dyna ystyr y *drovers* a welir yn Nrovers Arms ar hyd a lled Cymru. Tua chanol y ganrif, tuag adeg geni Iolo y cawsom y ffordd ' dyrpeg.' Nid oedd ond ' wagen ' o Lundain i Gaer, heb sôn am drên na modur nac eroplen. Anodd cludo nwyddau na gwaith gwlân o fan i fan. Nid oedd dim at y gwaith ond ' pyn-feirch ' neu fulod. Nid oedd dyddiau ysgol wedi gwawrio. Yr oedd ambell ysgol fel ysgol Brynllywarch neu Ystradwallter yma ac acw, ond nid oedd ysgol mewn llawer ardal. Dywedir nad oedd un Charity School yn Sir Aberteifi yn 1721—yn amser Jenkin Jones o Lwynrhydowen. Yn ddiweddarach y daeth ysgol Ystradmeurig, ysgol Llanwenog lle bu David Lloyd Brynllefrith, ac ysgol Castellhywel a'i thebig. Yr oedd yr hen ddiwylliant bron peidio â bod. Clera wedi marw o'r tir a ' beirdd teulu ' wedi mynd yn brin anghyffredin. Trefi bychain oedd hyd a lled y wlad, a'r rhai hynny yn enwog am ffair neu farchnad. Un ar ddeg o longau bychain oedd ym mhorthladd Caerdydd. Nid oedd poblogaeth Cymru ond pedwar can mil, a rhyw bedwar o bob pump yn gweithio ar y tir. Gwrecsam oedd y dre fwyaf yng Nghymru. Bach iawn oedd huriau y gweithwyr, a llafurwyr Sir Aberteifi yn cael chwe cheiniog y dydd ar eu cost eu hunain. Diddorol nodi, gan mai saer maen oedd tad Iolo, na chai saer maen, saer coed a saer melinau ond swllt y dydd ar eu bwyd eu hunain neu chwe cheiniog a'u bwyd, a hynny yn yr haf yn unig. Credaf, onid wyf yn camgofio, i hen flaenor yng Nghapel y Bryn ddweyd wrthyf ei fod ef wedi bod yn gweithio am bedair grot y dydd ar ei gost ei hunan yn y ganrif ddiwethaf. Oes rhyfel a phress-gang, oes o weithio caled ' rownd y cloc ' am arian bach, oes o golli gwaith a gadael ardal i chwilio am waith, oes o fwyd gwael, ac ambell gwarter o ysgol y gaeaf ydoedd oes a chyfnod Iolo. Y mae yn rhaid gwybod hyn cyn y medrwn fesur na phwyso Iolo.

Y mae yn anodd gosod dyn yn ei gyfnod. Y mae yn anodd mynd yn ôl ddau can mlynedd. Diddorol yw gwybod pwy oedd dynion mawr Cymru y ddeunawfed ganrif. Diddorol gwybod safon oes

o fesur mawredd. Hwyrach na bydd yr ychydig a enwaf ond enwau a dim ond enwau i'r mwyafrif mawr. Ni ellir mo'r help, ond dylasent fod yn *ddynion byw* i ni bob yr un.

Syr John Philipps, Castell Pictwn : aelod o Gymdeithas er mwyn hyrwyddo Gwybodaeth Gristionogol neu'r S.P.C.K., a gŵr a sefydlodd 124 o Ysgolion Elusen yng Nghymru yn ôl Shankland.

Gruffudd Jones, Ficer Llanddowror a sefydlydd Ysgolion Cylchynol neu ysgolion Madam Bevan fel y'u gelwid yn ddiweddarach. Bu tair mil a hanner yng Nghymru, neu yn hytrach o ' dymorau ' oherwydd symudai'r ysgolfeistr o fan i fan.

Thomas Charles o'r Bala, awdur Geiriadur Charles a gŵr a wnaeth lawer dros Ysgolion Sul.

Morgan John Rhys, fu farw yn yr Amerig ac a gyhoeddodd gylchgrawn-*y Cylchgrawn Cymraeg*.

Moses Williams, mab y Glaslwyn, Llandysul a Ficer Llanwenog a adawodd ar ei ôl ' Gofrestr o lyfrau Cymraeg.'

Goronwy Ddu o Fôn, un o feirdd mwyaf Cymru ac awdur Cywydd y Farn Fawr.

Edward Richard Ystradmeurig, athro a sefydlydd ysgol Ramadeg Ystradmeurig ac awdur bugail-gerddi.

Owen Myfyr, cyhoeddwr y *Myfyrian Archaiology*.

Dr. William Owen Pughe, awdur Geiriadur a gŵr a wnaeth lawer o waith i grynhoi gweithiau hen feirdd.

Ellis Wynne, awdur *Y Bardd Cwsg*, un o glasuron yr iaith Gymraeg.

Theophilus Evans, awdur *Drych y Prif Oesoedd*.

Edward Samuel a gyfieithodd *Holl Ddyledswydd Dyn*.

Twm o'r Nant, awdur nifer o Anterliwtiau.

Lewis Rees, Llanbrynmair diwygiwr gyda'r Annibynwyr.

Howell Harris, Daniel Rowlands a Williams Pantycelyn, diwygwyr Methodistaidd.

David Lloyd, Brynllefrith, yr athrylith grefyddol bennaf a'r dylanwad mwyaf o blaid crefydd rydd yng Ngheredigion onid yng Nghymru gyfan.

Peter Williams a'i feibl.

Jac Glan-y-gors, awdur *Seren tan gwmwl*.

Tomos Glyn Cothi, Gweinidog Undodaidd a chyhoeddwr *Y Drysorfa Gymysgedig*.

Dafis Castellhywel, ysgolfeistr ac awdur *Telyn Dewi*, a Dr. Richards o Lynn, arweinydd yr wrthblaid yng Nghymanfa Salem, Meidrym a blaenorwr y Bedyddwyr Cyffredinol. Dyna nifer bach o wŷr mawr oes Iolo, ac ni fedrwn fesur na phwyso Iolo ond drwy ei roi i sefyll ynghanol y rhai hyn, a sicr nid y lleiaf ohonynt yw Iolo Morganwg.

Ganed Iolo yn 1747 ym Mhen Onn, plwyf Llancarfan, ym mro Morgannwg. Saer maen oedd ei dad, a dyna oedd yntau, ac wedi

dysgu ei grefft yn naw mlwydd oed. Pobl dlawd oedd ei rieni, ond dywed Iolo fod ei fam yn ferch i foneddwr. Nid oedd yn gryf o iechyd yn ifanc ac nid aeth i'r ysgol. Ei fam a'i dysgodd i ddarllen Saesneg ac i garu llenyddiaeth. Saesneg oedd iaith yr aelwyd ond Cymraeg oedd iaith yr ardal. Rhyw dair milltir o'i gartref mae Llanilltud Fawr—un o fannau hynafol yr ardal. Dyma'r man cynharaf y gwreiddiodd Cristionogaeth ynddo ym Mhrydain. Yn yr ardal y ceir cromlechi ac adfeilion eglwysi, mynachlogydd a chestyll. Hwyrach i'r rhai hyn ddylanwadu arno. O leiaf carai hen bethau a charai lenyddiaeth Cymru. Ac yntau yn 23 mlwydd oed bu farw ei fam, gan ei adael i ymdaro oreu y gallai ar ei ben ei hun. Ymhen dwy flynedd fe'i ceir yn naddu cerrig at bont Llundain. Wedyn bu yn gweithio wrth ei grefft yng Nghaint ond erbyn 1777 yr oedd yn ôl ym Morgannwg. Yn Llundain daeth i gyffyrddiad â Chymry Llundain, ac yr oedd yn aelod o Gymdeithas y Gwyneddigion. Dechreuodd ymddiddori mewn hen bethau. Yr oedd ei gariad at Forgannwg yn fawr, ac ni fynnai i Wynedd fod ar y blaen iddi mewn dim. O bu iddo ffugio neu arall, er mwyn Morgannwg y gwnaeth. Yn 1779 yr oedd ei dad yn byw yn Nhrefflemin, a dwy flynedd wedyn priododd Iolo. Bu fyw yn Llandâf, ond erbyn 1784 yr oedd yn byw ar fferm ei wraig yn Nhredelerch.

Erbyn 1791 yr oedd yn ôl yn Llundain. Yr oedd y brifddinas yn ferw drwyddi. Ni chlywid ond sôn am ddiwygio a'r Chwyldro Ffrengig. Y mae 1791 yn flwyddyn bwysig oherwydd y flwyddyn hon y cododd terfysg ym Mirmingham. Llosgwyd y Capel Undodaidd a thŷ Dr. Joseph Priestley, un o wyddonwyr mawr y byd. Gorfu arno ffoi am Lundain, a sicr fod Iolo yn gwybod am y ginio a'r llosgi a'r erlid. Pleidiai Iolo ryddid a chydraddoldeb. Sefydlwyd Cymdeithas Heddwch Mehefin 14, 1816, a cheir Iolo a gwŷr blaengar eraill yn ei phleidio.

Yn y flwyddyn 1802 sefydlwyd Cymdeithas Undodaidd Deheubarth Cymru gerllaw Castellnedd, ac yr oedd Iolo yn aelod ohoni. Ef hefyd, yn ôl pob tebig, a fu wrthi yn ffurfio ei rheolau. Cyhoeddwyd yn 1812 gyfrol gyntaf o *Salmau yr Eglwys yn yr Anialwch*, ac yn ddiweddarach ail gyfrol —y ddwy yn cynnwys rhyw bedwar cant o emynau. Salmau Iolo yw mwy na hanner pob casgliad o'n hemynnau ni.

Bu fyw i oedran teg, ac er iddo dreulio ei ddyddiau olaf mewn tlodi, yr oedd wedi gwrthod ffortun am mai arian gwaed y caethion ydoedd. Bu farw Rhagfyr 1826, a gorwedd ei weddillion ym mynwent Eglwys Trefflemin, a cheir maen coffa iddo ar fur yr eglwys.

Dyna fanion moel hanes ei fywyd, a ninnau yn coffhau dau canmlwyddiant ei eni. Gŵr diddysg ydoedd a wnaeth fwy o waith yn ei ffordd ei hun na'r mwyafrif mawr o wŷr dysgedig ei genedl.

Saesneg oedd iaith yr aelwyd. Nid oedd yn ei gartref lyfrau Cymraeg na neb yn agos yn gwerthu llyfrau Cymraeg. Eto dysgodd yr iaith Gymraeg mor dda nes medru twyllo, os twyllo hefyd, wŷr dysgedig ei genedl am ganrif. Ni fedrir esbonio *Coelbren y Beirdd*, ond digon tebig mai ym meddwl Iolo y'i ffurfiwyd. Tua 1789 y dechreuwyd lledaenu'r Eisteddfod yng Nghymru. Beth bynnag yw ei gwendidau yn ei ffurf bresennol, hi fu yn goleg y werin dro byd, a sicr i Iolo wneud ei oreu trosti. Treuliodd ran olaf ei oes yn chwiliota a chopïo hen lawysgrifau. Ni byddai y *Myfyrian Archaiology* na'r *Iolo MSS* gennym oni bai am lafur cariad Iolo ac eraill. Casglodd hefyd a chopïodd waith Dafydd ap Gwilym a beirdd eraill, a diochon y buasai llawer wedi mynd ar goll onibai am ei lafur ef. Dywedir iddo wedi cael cwpled neu ddau o waith Dafydd ap Gwilym. Hwyrach hynny, ac y mae lle i gredu iddo glytio llawer cywydd. Y mae'r cywyddau hyn a'r caneuon cynnar yn rhai gwych iawn, ac yn ôl yr Athro W. J. Gruffydd,—"Nid gormod yw haeru bod y caneuon hyn yn gosod Iolo Morganwg ymhlith beirdd mwyaf Cymru. Profant hefyd, ond odid, mai cam ag ef ei hunan a wnaeth Iolo wrth osod enwau eraill wrth ei waith ac nid a neb arall."

Fe'i beiïr yn rhy lym yn Rhagymadrodd *Iolo Morganwg a Chywyddau'r Ychwanegiad.* Hwyrach y daw hen lawysgrif i glawr eto, pwy wyr? Hyd hynny, fe'i cofiwn fel hen ŵr o feddwl gwreiddiol ac annibynnol, yn caru rhyddid a heddwch yn angherddol, bardd mawr a gŵr mawr fel chwilotwr a Chymro, a gŵr a wnaeth ddiwrnod da o waith dan anfanteision gan dlodi ei hunan. Dangosodd y medr Undodwr foliannu Duw mewn salm ac emyn, ac er y myn ddefnyddio'i reswm, eto medr ddweud gydag eraill ei fod 'yn ofni Nuw'n fwy na neb.'

N. a N.

Beth Am y Dyfodol

PROFIAD GWEINIDOG.

Gan y Parchedig Lewis Williams.

Y mae llawer yn ofni dyfodol ein heglwysi. Proffwydant y bydd rhai ohonynt yng Nghymru wedi eu cau ym mhen ychydig flynyddoedd, ond peth peryglus ydyw proffwydo. Ni wn beth fydd hanes yr eglwysi yn y dyfodol, ond gyda gweinidogaeth lafurus a chyda ffyddlondeb o du'r cynulleidfaoedd ni welaf achos pryder am y dyfodol. Cydnabyddir fod llacrwydd yn yr eglwysi o bob enwad. O'u cymharu a'r hyn oeddynt gwelir cyf-

newidiad mawr. Ond nid yn yr eglwysi yn unig y mae cyfnewidiad. Gwelir hynny ym mhob cylch o fywyd. Ni ellir mesur maint y cyfnewid a wnaeth y bom atomig yng nghylchoedd rhyfel. Mewn perthynas i'r dyfodol achosodd ofnau mawr. Ofnir dinistr gwareiddiad. Ond cyn bod sôn am y bom yr oedd y gwareiddiad a adnabu ein tadau wedi dirywio.

Cymrwn fywyd y cartref. Onid oes gyfnewidiad yno? Darfu awdurdod rhieni. Ddeugain mlynedd yn ôl credai plant fod yn rhaid ufuddhau i orchmynion eu rhieni. Heddiw nid y plant sy'n gorfod gwrando ar eu rhieni, ond y rhieni sy'n gorfod gwrando ar eu plant. Darfu disgyblaeth y cartref. Y mae canlyniad drwg i hyn.

Ystyriwn y cylch cymdeithasol. Pan euthum i'r Coleg ni wyddwn fawr am lyfrau buddiol i'w darllen. Dywedwyd wrthyf am lyfr da o waith un o'r enw Smiles. Teitl y llyfr yw *Self Help*. Y pryd hwnnw yr oedd yn llyfr poblogaidd iawn, ac ystyrrid ef yn un o'r goreuon i ddyn ifanc ei ddarllen. Parodd i mi sylweddoli fod llwyddiant dyn yn dibynu ar faint ei ymdrech ei hun. Cyfrifid llafur a diwydrwydd ac ymdrech y pryd hwnnw yn bethau pwysig. Ond nid oes alw am y llyfr hwn yn awr yn ein llyfrgelloedd. Y mae eiddo Beveridge ar *Social Security* yn fwy poblogaidd. Ie, geiriau poblogaidd y dyddiau hyn yw *social security*. Ond y mae lle i ofni y bydd y *security* hwn yn gwanychu yn y mwyafrif o ddynion yr ymdeimlad o gyfrifoldeb personol i ddarparu ar gyfer henaint. Ni all neb gyfrif y drwg a wneir drwy ladd y syniad o gyfrifoldeb personol. Y syniad hwn yw sail adeiladwaith bywyd.

Deuwn eto i'r cylch crefyddol. Y mae'r cyfnewid yn hwn yn gymaint ag mewn un cylch arall. Yn addoldai'r wlad y mae'r cynulliadau yn llawer llai nag oeddynt. Ychydig o ddarllen sydd ar y Beibl. Dau ymadrodd a glywid yn fynych yn y dyddiau gynt oedd " moddion Gras " ac ofn yr Arglwydd." Golygai'r rhain fod gwasanaeth crefyddol yn wrthrych o bwys, ac y cedwid " dydd yr Arglwydd " yn sanctaidd. Yr oedd "moddion gras " ac "ofn yr Arglwydd " yn atal y bobl rhag mynd yn ddiofal am y pethau cysegredig. Cedwid yn fyw y syniad o gysegredigrwydd. Pan gyll dyn y syniad hwn bydd popeth yn mynd yn gyffredin iddo, a gall ddiystyrru Duw, halogi "dydd yr Arglwydd," a diofalu ynghylch egwyddorion bywyd heb deimlo ofn na chywilydd. Gwelir y cyfnewid hwn ym mhob cylch yn y byd.

O gymharu'r sefyllfa heddiw â'r hyn oedd ddeugain mlynedd yn ôl, yn ddiamau y mae lle i bryder, pobl yn siglo'u pennau ac yn proffwydo dyfodol tywyll.

Ond y mae ochr arall i bethau, a pheidier â ffurfio barn unochrog, oblegid gall hynny beri mwy o ofid nag a ddylai fod. Y mae yn ein plith ddynion a elwir yn besimistiaid. Beth sydd yn gwneud dyn yn besimist? Onid hyn, sylwi mwy ar bethau drwg nag ar bethau da. Nid oes gydbwysedd yn ei farn, ac oherwydd hynny gwêl y

drwg yn gorbwyso'r da. Y canlyniad ydyw digalondid a cholli ffydd.

Meddyliwn am y bom atomig. Y mae'n ddychryn i laweroedd, a gwna i ddynion feddwl am ddinistr gwareiddiad. Yr achos o farnu felly ydyw'r olwg gyfyng a gymerir. Meddylir am ddim ond y drwg a all wneud. Paham na all y gwyddonwyr a ddyfeisiodd y bom ddyfeisio rhywbeth arall i atal ei ddefnydd i ddibenion dinistr? Dyna hanes gwyddonwyr yn gyffredin. Ceisiant ddarganfod y pethau sydd o les, fel y *penicillin* a'r peth newydd a ddarganfuwyd er mwyn gwella *malaria*. Gwneir ymchwiliadau pellach ynglŷn â'r bom atomig, a dichon y gellir troi'r gallu dinistriol i symud peiriannau. Bydd felly yn foddion gwasanaeth na fedr neb ei ragweld heddiw. Credir yn gadarn y gall gwyddoniaeth a dyfais ddarganfod y moddion i sicrhau mwy o freiniau a mwy o hawddfyd i'r gweithiwr a mwy o lwyddiant a chydweithrediad ac hapusrwydd. A ddwedwn ni nad oes gennym ffydd y bydd i Dduw ddefnyddio galluoedd i lwyddo ei eglwys a sefydlu ei Deyrnas ar y ddaear? O chredir y daw amser gwell mewn ystyr fydol drwy wyddoniaeth a dyfais ac ymdrech dyn, a ddwedwn ni fod llwyddiant dyn yng nghylchoedd daear yn fwy na llwyddiant Duw ym myd yr ysbryd? Ni ddylai'r un pregethwr a ddywed hynny fod yn y weinidogaeth.

O bryd i bryd cynhaliodd pob un o'r enwadau gyfarfodydd i ystyried beth a allent ei wneud i gwrdd â'r sefyllfa bresennol. Testun araith un o weinidogion y Bedyddwyr oedd, "Dos yn dy rymusdra yma." Ymadrodd Beiblaidd yn awgrymu y credai'r gweinidog hwn yn nerth ei enwad i wrthsefyll a gorchfygu pechodau'r amser presennol.

Ofnaf i ni fel enwad fynd i deimlo en bod yn ddinerth. Nid oes gan Dduw ddewis-ddynion i gyflawni ei waith. Y mae mor barod i ddefnyddio gweinidogion Undodaidd i'r gwaith ag ydyw i ddefnyddio gweinidogion unrhyw enwad arall. Meddianner ni ag angerdd crefyddol ac aiddgarwch dros lwyddiant yr Efengyl. Ym mhwy bynnag y mae awydd bod yn gyfrwng i lwyddo'r Deyrnas, ni edy Duw hwnnw heb ei gyflenwi â nerth.

Danfonwyd y Parchedig Robert Spears gan y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor i eglwysi lle yr oedd yr achos yn isel. Bu mewn amryw o'r eglwysi hyn, a dywedir iddo lanw pob un ohonynt. Llwyddai lle y methai arall. Paham? Dywedir fod ei ffydd yng ngallu'r Efengyl yn ddiderfyn. Pelydrai allan o'i wynepryd, ac adgyfnerthai ffydd dynion eraill. Fel hyn y llanwodd Mr. Spears lawer eglwys a fu bron yn wag. Anfoned Duw rywun tebyg iddo i'r cylchoedd Undodaidd yng Nghymru i ddod â'r diwygiad y carem ei weld.

Gwir fod pethau trist yn wynebu ein cyfundeb ac yn peri gofid. Nid oes un bachgen ieuanc heddiw yn paratoi ar gyfer y weinidogaeth. Y mae dyfodol ein pulpudau yn ddu. Ond ni welaf fod

achos iddi fod felly. Sonnir heddiw fwy am gyflog na phan fedd yliais i fynd i'r weinidogaeth. Y diweddar Barchedig John Davies-Galltyplaca, a'm hanogodd. Ni soniodd air am gyflog : ni feddyl, iais innau ddim am hynny. Yr oeddwn fel Abraham yn myndallan heb wybod i ba le yr oeddwn yn myned, heb wybod pa fath amgylchiadau oedd yn f'aros. Mewn galwedigaethau eraill heddiw tynnir cyflogau mawr, ac y mae ein bechgyn ieuainc yn cymharu cyflogau ein gweinidogion â'r rhain. Yna rhwystrir hwy gan gwestiwn y gyflog i fynd i'r weinidogaeth. Ynglŷn â'r weinidogaeth y mae mwy i'w ystyried na chyflog. Beth am waith gweinidog? O bob galwedigaeth hon yw'r alwedigaeth uchaf. Os felly, yn y gwaith a berthyn iddi y mae mwy o fwynhad na all un gwaith arall ei ddwyn.

"Mae mwy o bleser yn dy waith
Na dim a fedd y ddaear faith."

"Anghenraid a osodwyd arnaf," medd yr Apostol Paul, "a gwae fi oni phregethaf yr efengyl. Mi a'm gwneuthum fy hun yn was i bawb fel yr enillwn fwy." Beth oedd yn ennill? Nid cyflog. Beth yntê? Y mwynhad a gawsai wrth bregethu'r efengyl, ac wrth weini ar eraill yn ôl eu hangen. Y rhai sydd â'u bryd ar bregethu'r efengyl ac ar ennill pobl i'r Deyrnas a ddylai fynd i'r weinidogaeth. "Ond," meddai rhywun, "rhaid i weinidogion gael eu cynnal." Gwir hynny. Yr ydym ni, weinidogion Undoddaidd yng Nghymru, yn cael ein cynnal heddiw lawer yn well na gweinidogion ddeugain mlynedd yn ôl. "Mae'r amgylchiadau wedi newid, ac y mae costau byw heddiw yn fwy nag oeddynt ddeugain mlynedd yn ôl," meddai un arall. Gwir hynny. A chyfrif hynny, cawn ein cynnal heddiw lawer yn well na gweinidogion ddeugain mlynedd yn ôl.

Paham nad oes bechgyn ieuainc yn meddwl am fynd i'r weinidogaeth y dyddiau hyn? Ofnaf fod y syniad am yr alwedigaeth wedi ei lygru, a barnant yr alwedigaeth yn nhermau cyflog. Deil cyflogau ein gweinidogion i'w cymharu â chyflogau gweinidogion enwadau eraill. Os mai'r gyflog yw'r achos am nad oes un bachgen ieuanc yn dymuno mynd i'r weinidogaeth, dywedaf mai da yw nad oes yr un yn ei gynnig ei hun. Ond os oes rhywun yn peidio â mynd i'r weinidogaeth am fod ei syniad am yr alwedigaeth wedi ei lygru, dywedaf wrtho y caiff gweinidog dâl heblaw cyflog. Y mae pleser y gwaith yn beth na all cyflog fawr na dim arall ddwyn ei debyg.

Pe gellid adnewyddu fy ieuenctid a'm nerth am y deugain mlynedd nesaf, ni fuaswn yn pryderu fy rhwymo fy hun i ofalu am eglwysi Rhydygwin a Chiliau Aeron am y cyfnod hwnnw.

Gwinllan Naboth

Gan y Parchedig D. Delta Evans, Ilford.

Mewn erthygl flaenorol (gweler rhifyn Ionor), crybwyllais am ddau lythyr arbennig a dderbyniais flynyddoedd yn ôl oddi wrth ddarllenwyr fy ysgrifau ar "Derfynau Bywyd," ac allan o un o'r llythyrau hynny dyfynnais bisyn go helaeth. Yn awr, detholaf ddernyn o lythyr arall tra phwrpasol i'r pwnc mewn ystyriaeth. Eb yr ysgrifennydd ar ei ddechrau :

"Syn, onid e, baroted yw dynion i ymryfygu troseddu terfynau a ffiniau moesol a chymdeithasol modd y gallont ennill golud, awdurdod, a grym ! Ac eto, pan ddelo math arall ar brawf o'u dewrder a'u hir-oddef corfforol, heb sôn am eu gwroldeb ysbrydol a hirbarhad eu hamynedd a nerth eu meddwl—syn, meddaf, ydyw sylwi pa mor barod ydyw'r cyfryw rai i roi popeth i fyny er mwyn cael byw ! Cyn belled ag y mae a wnelo â rhai fel hyn, beth bynnag, gwir yw haeriad Satan, yn ôl Llyfr Iob : 'Yr hyn oll sydd gan ŵr a ddyry efô am ei einioes . . . ' Nid mwy truenus unrhyw fath ar fethiant na'r methiant sy'n dilyn byth a hefyd llwyddo i neidio dros derfynau'r ddeddf foesol."

Yna, fe â'r ysgrifennydd yn ei flaen i ail-adrodd haeriad tra gwahanol i'r eiddo Satan yn Llyfr Iob, sef haeriad rhyw esgôb arabaidd a amlygodd ei feddwl fel hyn :

"Pan fyddom wedi bwrw'r blaidd a'r dywalgi allan o'n hanian, fe erys yr asyn o hyd ym mhawb ohonom."

Wrth gwrs yr oedd gan yr esgob hwnnw bob hawl i lefaru drosto'i hun, a hefyd efallai ar ran rhai o'i gymheiriaid eglwysyddol. Eto, mewn difrif, onid yw ei ddatganiad yn rhy ysgubol ? Sut bynnag am hynny, fel darlun trawiadol o wirionedd cyffredinol mynegiant noeth yr esgob, geilw fy nghohebydd sylw arbennig at yr hanesyn hynafol am Ahab a Naboth—er nad ydyw gweled un wennol yn profi bod yr haf wedi dyfod. Esgeulusa un peth pwysig arall, sef bod y cnaf yn y chwedl honno, yn ôl pob ymddangos, wedi cadw'r blaidd, y dywalgi, a'r asyn yn gymesur yn ei anian ei hun hyd y diwedd.

Y mae'r stori am Ahab a Naboth ar gael o fewn cyrraedd pob Cymro darllengar. Ond gan mai yn y Beibl y mae, ac nad yw pob Cymro darllengar byth (yr oes hon) yn darllen y Llyfr hwnnw, carwn anog fy narllenwyr lleyg i droi i'r hen Lyfr am unwaith a chwilio amdani, gan ystyried trachwant Ahab yng ngoleuni'r asyn yn Sir Feirionnydd yr adroddwyd ei hanes mewn llith flaenorol yn y misolyn hwn. Rhag ofn na chymer neb y drafferth o droi i'r Beibl ei hun, gwell imi ail-adrodd sylwedd yr hen stori yn y fan yma.

Brenin yn Israel tua thair mil o flynyddoedd yn ôl oedd Ahab, ac

yr oedd iddo ef a'i briod Iesebel blas gwych yn Samaria. Yr oedd Ahab nid yn unig yn oludog ac yn hoff o ysblander, eithr hefyd yn deyrn creulon a gormesgar ; at hynny addolai y gau-dduw Baal. Ar y llaw arall, Naboth oedd Iddew cymharol dlawd, gwerinwr ymroddgar a diwyd. Iddo ef yr oedd gwinllan dlos a ffrwythlon y gofalai'n fawr amdani gan ei thrin â'i ddwylo'i hun. A'r winllan honno oedd cenfigen ac eiddigedd y Brenin. Buasai ei lygaid arni ers tro, a magodd chwant ystyfnig ac afreolus meddiannu'r llecyn deniadol hwnnw er mwyn ei drawsffurfio'n ardd flodau iddo'i hun a'i wraig. Gan hynny, aeth Ahab frenin ei hun at Naboth y gwerinwr a gofyn iddo un ai ffeirio'i winllan am lecyn arall o dir neu ynteu ei gwerthu am bris rhesymol. Eithr gwrthod y fargen yn bendant a wnaeth yr Iddew. Fel hyn :

"O Frenin ! Nid oes flys arnaf am ymadael â'm gwinllan, a gymerth gymaint o amser a llafur i'w thrin a'i diwyllio a meddwl a gofal i'w rhoi mewn trefn ac i'w gwneuthur yn brydferth a ffrwythlon. Ymddibynnaf arni am fywoliaeth i mi a'm teulu. Na, O Frenin, nid ymadawaf â hi nac am na darn arall o dir nac am arian."

Er bod gan y Brenin fwy na digonedd o'r byd hwn a'i bethau, gymaint oedd ei siomedigaeth a'i ddicter o fethu â chael gwinllan Naboth ag i'w yrru'n sorllyd i'w wely. Yno, troes ei wep at y pared, ac nid oedd dim a'i cysurai. Oblegid yn awr ystyriai'r teyrn trachwantus ei holl gyfoeth a'i feddiannau megis diddim heb y winllan y rhoesai ei fryd a'i galon arni. Ac eb ei wraig wrtho :

"Ond paid â thristâu, O Frenin, mi gei di'r winllan, yn rhad ac am ddim ! Mae gen i blan neis iawn. Gwrando 'rŵan. Dyma fo."

A bu, o gael ei gymell gan y gyfrwysach frenhines ei wraig, i Ahab frenin ymddarostwng yn ddyfnach fyth i waradwydd. Fe gytunodd â Iesebel ei frenhines i gynllwynio bradwaith er mwyn gwared o'r gwinllannwr—cyfryw ag a'i galluogai i neidio dros y clawdd, fel petai, a chymryd meddiant o winllan ddymunol yr Iddew trwy rym twyll a thrais. Cyhuddwyd Naboth o ryw drosedd enbyd ar gau-dystiolaeth. Fe'i dienyddwyd ; a chymerth Ahab feddiant o'i winllan . . . Cyhyd â hyn fe lwyddodd y cynllwyn dieflig rhynddo ef a'i frenhines ; eithr yn y diwedd bu'r llwyddiant yn foddion dinistr y bradwyr. Bu'r dynghedfen a ddaeth ar warthaf eu trachwant brenhinol yn fwy gwaradwyddus ac enbyd hyd yn oed na ffawd yr asyn yn Sir Feirionnydd.

* * *

Dyfned ydyw'r argraff a wnaethpwyd ar feddwl dynol-ryw gan yr hen chwedl Iddewig nes ei bod bellach ers oesoedd lawer wedi crisialu'n ddihareb ar lafar y cenhedloedd. Pan ddigwyddo bod rhywbeth y bo undyn yn ei fawr chwenychu ond nas medr ei gael trwy deg, dywedir : "Ie, dyna'i winllan Naboth ef ! " . . . Ac wrth inni feddwl yrŵan, onid ymddengys bod medru neidio'n rhy

lwyddiannus dros y cloddiau moesol yn cyfrif am lawer trychineb ym mywyd y byd? Ar y llaw arall, a llefaru mewn iaith llai ffigurol, *methu* â mynd trwy deg dros y terfynau rhwng eu gerddi eu hunain a gwinllannoedd mwy dymunol eu cymdogion sydd wrth wreiddyn llawer o helbulon, gofidiau, a siomedigaethau pitw miloedd ar filoedd o blant dynion ym mhob oes a gwlad. Nid ydyw hanes y mul gwancus ac ymneidiol yn Sir Feirionnydd onid arwedd ddiweddar o'r hen chwedl am Ahab frenin a'i drachwant am winllan Naboth.

Ond beth am drachwant Ahabiaid yr oes hon sy'n eu gyrru i geisio meddiannu tiroedd Nabothiaid bychain trwy dwyll a thrais? Diau na chlybu'r Ahabiaid diweddar hyn erioed ddim sôn am y teyrn yn Samaria, nac ychwaith am ffawd yr asyn ym Meirionnydd; ac ymddengys fel pe baent yn llwyddo yn eu neidio dros gloddiau. Ond fe ddaw eu tro hwythau, megis y daeth tro pob Ahab, Mwsolini a Hitler trachwantus arall o'u blaen hwynt.

Y Troad Allan

I ATODI erthygl yr Hybarch D. Evans yn rhifyn Chwefror addas yw crybwyll am gerdyn deublyg a gyhoeddwyd i goffhau'r cyffro mawr yn Llwynrhydowen adeg amddifadu'r gynulleidfa o'i hen Gysegr. Dyma a argraffwyd ar y cerdyn :—

ER COF

Y llinellau canlynol yw y diweddaf o eiddo y

Parch. WILLIAM THOMAS, M.A.

yr hwn a fu farw Rhagfyr 11eg, 1879. Cyfansoddodd hwy ar achlysur ei ymweliad a chapel newydd Llwynrhydowen ychydig ddyddiau ar ôl ei agoriad yn Hydref 1879.

"YR HEN A'R NEWYDD"

(LLWYNRHYDOWEN).

UNWAITH mi gefais weled
Y Demel brydferth hon;
Ac edrych ar ei harddwch
Llawenydd yw i'm bron:
Ond pan yr wyf yn cofio
Yr hen adeilad lwys,
Daw dagrau i fy llygaid,
A chwyd ochenaid ddwys.

WM. THOMAS.

Priodasau.

Ionor 2, yn Eglwys Llanwenog, DAVID MIDRIAN DAVIES, Ffwrneithyn, Mydroilyn a RACHEL MARGARET DAVIES (RAY) Crugywheel, Llanybyther.

Ionor 14, yng Nghapel Nanternis, Llandysilio-gogo, EVAN EVANS, Felin Rhydowen, a MARY DAVIES, Hafod Iwan, Llwyndafydd. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion J. A. Jarman ac E. O. Jenkins.

Marwgofion.

Daearwyd gweddillion y Parchedig D. J. WILLIAMS ym mynwent y Tŷ Cwrdd Newydd, Killinchy, Gogledd Iwerddon, ar Ionor 11. Cofir amdano yn ardal Llanbedr fel David John Williams, Postgwyn. Ganed ef yn 1870 Yn ifanc fe'i ei hunan cyflwynodd i waith y weinidogaeth, ac addysgwyd ef yn yr Home Missionary College, Manceinion, ac yn Owen's College, yn awr Prifysgol Victoria. Gweinidogaethodd yn Newark (1892-95), Merthyr (1895-1905), Belper (1905-1908), Killinchy (1908-1938). Ef oedd Moderator y Remonstrant Synod of Ulster yn 1923-24, Moderator y Non-Subscribing Church of Ireland yn 1927-28, Golygydd y *Non-Subscribing Presbyterian* o 1927 hyd 1929. Daeth tyrfa i'w gynhebrwng, a gwasanaethwyd yn y capel gan ei olynydd, y Parchedig A. M. Bell. Siaradwyd gan y Parchedig J. H. Ewbank, Rademon, a thystiolaethodd amdano fel gweinidog ffyddlon, dyn didwyll, o galon garedig, a gweithiwr diwyd dros yr achos. Gweddïwyd gan y Parchedig J. Dare Davies, Moneyrea. Ar lan y bedd gwasanaethwyd gan y Parchedig A. M. Bell, gweddïwyd gan y Parchedig J. Glynne Davies, Comber, a llefarwyd geiriau'r Fendith gan y Parchedig J. Ratcliffe, Downpatrick. Bu marw ei wraig yn 1937 yn ergyd trwm iddo, ac yn galaru ar ei ôl y mae tri o feibion, un ohonynt yw'r Parchedig J. Arnold Williams, Larne, gynt Nottingham. Cyflwynir iddynt ac i'r perthynasau gydymdeimlad dwfn. Yr oedd Mr. Williams yn cynrychioli'r teip gwirioneddol o foneddwr Cristnogol. Bu fyw er mwyn gwneud daioni. Dyna'i lawenydd. Tystiolaethai pobun a ddaeth i gyswllt ag ef fod yn ei fynwes galon driw. Daeth Angau ato i'w waredu o gystudd blin a hir, a'i faich trymaf oedd ei fethiant i wneud mwyach y gwaith a garai mor fawr.

Ionor 14, bu farw Mrs. M. A. WILLIAMS, 22, Hirwaun Road, Trecynon, Aberdâr, yn 71 mlwydd oed. Ni fu o gorff cryf erioed, a syndod iddi allu bod mor weithgar ar hyd ei hoes. Gordrethodd ei nerth yn ystod afiechyd ei phriod a fu farw ym mis Mawrth diwethaf, ac yn ychwanegol cafodd ddamwain ar yr aelwyd. O'r amser hynny gwelwyd hi'n gwaethygu, a'r bythefnos olaf aeth ar y goriwaered ar garlam. Chwaer hynod o garedig ydoedd, a dywedai ei chydnabod na fu gwell cymdoges erioed na hi. Drws agored bob amser oedd drws nymber 22, ac yr oedd yno lond tŷ o groeso i bawb. Chwith-

ig fydd colli hyn. Er fod ganddi ei hopiniwn ei hun ni chlywyd gair angharedig ganddi am neb. Pan fyddai eisiau cymwynas nid oedd neb barotach na hi, a gwnai hynny gydag urddas. Gwelir ei heisiau yn fawr ymhlith y cymdogion, ac yn enwedig yn yr Hen Dŷ Cwrdd, oblegid yr oedd hi ymhlith y ffyddloniaid, a gellir dweud yn ddibetrus amdani, "A allodd hon hi a'i gwnaeth." Cyflwynir i'r mab a'r ferch ac i'r perthynasau oll ein cydymdeimlad dwysaf yn eu hiraeth a'u gofid. Hebryngwyd ei gweddillion i'r Crematorium, Glyn Tâf ar y dydd Sadwrn dilynol, a gwasanaethwyd gan y Parchedigion D. Jacob Davis ac E. R. Dennis.

IONOR 29, bu farw Mrs. JANE JONES, Tynpant, Pontardawe, yn 83 mlwydd oed. Claddwyd y dydd Sadwrn dilynol wrth Gellionnen, y Parchedigion J. D. Jones a Noel James yn gwasanaethu. Bu Mrs. Jones yn wael yn hir, ond daliodd ar ei thraed bron hyd y diwedd. Dynes fawr ei pharch ydoedd, ffyddlon i'w chapel fel ei theidiau, a gweithgar yn ei chartref. Yn huotlach na geiriau y llefara dylanwad ei bywyd drosti, a gwelsom ninnau effaith y dylanwad hwnnw yng ngwasanaeth ei gwr, y diweddar Daniel Jones, fel amaethwr blaenfynedol, fel cymydog, fel arweinydd yn niwylliant ei gymdogaeth. Gwelsom ei hymdrechion yn ffrwytho yng nghymeriad a gwaith ei phlant, yn eu serch hwythau tuag ati, yn eu gofal parhaus amdani ym mlynyddoedd ei henaint, tystiolaeth y plant eu hunain i ofal tyner a chariad mam. Gweithiodd yn ddyfal ar feysydd hau ac ar feysydd medi. Gwelodd lawer gwanwyn a llawer hydref yn ymweld â llechweddi Gellionnen. Gwelodd hefyd o gynhaeaf ei bywyd ei hun, a phrofodd o'i wynfyd. Yn ei chwmniteimlid y peth neilltuol hwnnw a elwir yn sancteiddrwydd henaint—rhywbetha enillir ydyw, canlyniad ffordd neilltuol o fyw. Gadawodd fwlch o'i hôl yn y cartref, yn y capel, yn y gymdogaeth. Gyda'r unig ferch a'r pump bachgen a'u cysylltiadau y mae ein cydymdeimlad dyfnaf. Dilyn y ferch, Mrs. D. J. Thomas, a dau o'r bechgyn, Thomas a John, hen alwedigaeth eu rhieni ; deil y tri mab arall swyddi pwysig mewn gwahanol gylchoedd, Cyril dan Gyngor Pontardawe, Rees (yn fwy adnabyddus i ddarllenwyr YR YMOFYNNYDD fel Dr. R. O. Jones, Llundain) dan y Ministry of Supply, a W. Arthur dan Glybiau'r Ffermwyr Ifainc.

CHWEFROR 2, bu farw Mrs. MARY MORGAN, priod Mr. William Morgan, 1, Morgan Street, Trebanos, yn 71 mlwydd oed. Un o ferched y diweddar Henry Morgan ydoedd, ac fel ei chwiorydd a'i brodyr gwnaeth hithau ddiwrnod da o waith yn achos Gellionnen a'r Graig. Cofir amdani'n hir yn y cymdogaethau hyn fel "Mrs. Morgan y Nyrs." Meddai ar bersonoliaeth hardd : yr oedd ei bywyd yn fywyd dylanwadol, a chylch ei hadnabyddiaeth yn un eang iawn. Mam ydoedd yng ngwir ystyr y gair, ac ni ellid cuddio dylanwad y fam ar aelwyd Mrs. Morgan. Y fam yn fwy na neb sy'n creu awyrgylch y cartref, ac oni bydd yr awyrgylch yn iach, ni ellir yno dyfu a datblygu dynoliaeth. Diolchwn am y mamau sy'n gwneud eu haelwydydd yn ymgeledd ac yn fagwrfa i'r gwerthoedd hynny sy'n aros cyfnewidiadau byd. Yn eu cariad tuag ati, yn eu gofal amdani, nid yn unig ym mlynyddoedd ei

chystudd hir ond hefyd ym mlynyddoedd iechyd a hoen gwelsom ninnau dystiolaeth priod a phlant i gariad a gofal tyner mam. Nid oes brofiad mwy cysegredig na'r profiad hwn o gariad dwfn yr aelwyd. Gwelwyd hynny rai misoedd yn ôl ar ddydd dathlu ei phriodas euraid. Dynes lawn ydoedd Mrs. Morgan, ei bywyd amlochrog yn cyffwrdd â llawer o fywydau. Nid byw a wnaeth ar ei phen ei hun, ond rhoes o'i gorau mewn gwasanaeth i gymdeithas. Gellid cyfeirio at restr hir o'i gwasanaethau yn ei bywyd cyhoeddus yn y cymoedd hyn. Meddai ar ddeall craffus a chydymdeimlad dwfn. Yr oedd ganddi afael sicr ar broblemau cymdeithas, a gallai ffurfio barn bendant. Yn nodweddiadol ohoni yr oedd ei doethineb a'i hiwmor iach. Disgrifiwn hi fel dynes *progressive*. Gwelodd gystudd hir. Gwelsom ninnau hi'n plygu dan y ddyrnod ofnadwy honno o golli Ken, un o'r bechgyn anwylaf a fagwyd yn y gymdogaeth. Collodd ei fywyd ar y môr, yn garcharor rhyfel yn y Dwyrain Pell. Collodd hithau dan y ddyrnod ei gallu i dorri geiriau, ond yr oedd y golau yn ei llygad yn dal i lefaru drosti. Yn wyneb ei phrofedigaeth daliodd yn amyneddgar, a breintiwyd hi â gofal tyner priod a phlant. Darlun Ken, sŵn canu emyn—dyna'i hysbrydiaeth hi ar wely cystudd. Y mae hithau wedi uno â Ken, ac wedi cael ei lle yn y côr anweledig, "y marw anfarwol" sy'n byw eto mewn teimladau sy'n deffro meddyliau dyrchafol a chysegredig, a ninnau ar lwybrau daear yn cael y fraint o glywed darnau o'r canu nefol. Erys prydferthwch ei bywyd yn goffadwriaeth felys iddi ac yn ysbrydiaeth i'r rhai sydd yn galaru ar ei hôl. Cydymdeimlir â'r priod a'r plant ac â'r cysylltiadau. Yn ei chynhebrwng y dydd Mercher dilynol gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchedig Lewis Morgan, yng Nghapel y Graig gan y Parchedigion J. D. Jones, Dl. John, a J. Rowland Jones. Daeth tyrfa ynghyd i ddangos eu parch i'r ymadawedig. Yna yng nghwmni ei theulu, ei brodyr, a'r gweinidog cludwyd ei gweddillion i'r Crematorium, Glyn Tâf, lle y gwasgarwyd ei llwch yng Ngardd y Cofio.

Chwefror 3, yng Nghaerfyrddin, EVAN DAVID JONES, mab y diweddar Hetty Bowen, Islwyn, Talgarreg, a chyn hynny Penlôn, Meinigwynion, yn 34 mlwydd oed. Yr oedd yn fachgen o gorff mawr, cryf ond er yn blentyn blinid ef yn enbyd iawn gan ffitiau garw, a'r canlyniad oedd iddo fethu â thyfu fel y dylai o ran ei feddwl bachgen o feddwl syml oedd ac anghofus. Dyna'i hanes ar hyd ei oes, ond 'roedd mor ddiniwed a'r oen. Bu ei fam, a gladdwyd rhyw dri mis yn ôl, yn ofalus iawn ohono, a phryderodd lawer yn ei gylch. Pan gai lonydd gan y ffitiau mynychai'r gwasanaethau yng Nghapel-y-Fadfa'n gyson, ac ni thynnai ei lygaid oddiar y pregethwr, a gwelid ef o flwyddyn i flwyddyn yn y Gymanfa Ysgolion a'r Gymanfa Ganu, ac yn ddiamau cafodd fwy o fwynhad a budd o'r pethau hyn nag a dybiai llawer. Gadawodd nifer o gefnderwyr a chyfnitherod i wylo ei golli. Claddwyd ei lwch ym mynwent Capel-y-Fadfa y dydd Sadwrn dilynol, a gwasanaethwyd gan y Parchedigion E. O. Jenkins a S. E. Bowen.

CHWEFROR 14, yn 79 mlwydd oed, bu farw Mrs. MARGARET EVANS, Cwrt Farm, Llanwenog, gweddw y diweddar Mr. William Evans, a fu farw ugain mlynedd yn ôl. Yr oedd yn gymeriad hawddgar, o anian foneddigaidd naturiol. O gwmpas ei haelwyd y treuliodd y blynyddoedd diwethaf, a hithau yn egwan, ond byr y bu ei chystudd yn y diwedd. Gadawodd bump mab a phedair merch mewn hiraeth ar ei hôl. Bu'r angladd—preifat—y dydd Mawrth dilynol yng Nghapel-y-Bryn, a gwasanaethwyd gan ei gweinidog, y Parchedig S. E. Bowen, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchedig S. G. Thomas, Capel Seion.

CHWEFROR 20, MARY EVANS, Berthfa, Talsarn, Ceredigion, yn 79 mlwydd oed. Gweddw y diweddar David Evans, Penwern, Llanfihangel-Ystrad ydoedd. Ymdrechodd ymdrech deg ynglŷn â gorchwylion ei bywyd. Mae ei phlant mewn sefyllfaoedd da, ac y mae ei llafur hi, i fesur mawr, yn cyfrif am hynny. Ceisiodd fod yn lanwedd mewn pob peth ; yn ei gwisg ac yn ei gweithredoedd, ac yr oedd yn ddynes urddasol. Yr oedd yn nodedig am fod yn garedig, a bu ei helusennau yn llawer. Claddwyd ym mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd yn y tŷ dydd ei hangladd gan y Parchedigion Lewis Williams, Rhydygwin a J. Morgans, Ficer, Trefilan ; yn y capel gan y Parchedigion E. Talog Davies, Ficer Nantcwnlle, a W. Ll. Davies, Shiloh, Llanbedr, ac ar lan y bedd gan y Parchedig T. Oswald Williams, Brondeifi. Gadawodd ddau fab a'u teuluoedd, dwy ferch a'u teuluoedd, ac un ferch amhriod, wyrion, a dau frawd a theulu un o honynt, ac un chwaer, a neiaint mewn galar ar ei hôl.

CHWEFROR 22, wedi cystudd byr, yn Ysbyty Treforus, bu farw Miss ALICE MAY ROBERTS, unig ferch Mrs. S. A. Roberts a'r diweddar Mr. John Roberts, y Darren, Trebanos, yn 44 mlwydd oed. Nid oedd o gorff cadarn : er hynny ni fynnai seguryd, ac yr oedd diwydrwydd yn rhan o'i bywyd. Gallai droi ei llaw at bopeth bron, ac yr oedd crefft ar ei gwaith. Pleser gweld ei gwaith gyda'r nodwydd. Yn ei hieuenctid dangosodd arwyddion dyfodol disglair fel adroddwr ar y llwyfan. Y blynyddoedd diwethaf gweithiai gyda'r Domestic Staff yn Ysbyty Treforus, ac er bod y gwaith yn galed yr oedd yn waith wrth ei bodd. Yr oedd ganddi gwmni rhagorol yno, a hithau yn fawr ei pharch ymhlith y cwmni. Mor barod oedd ei chymwynasau. Amlygwyd hynny gan ofal mawr meddygon a swyddogion yr Ysbyty ohoni yn ei chystudd. Claddwyd y dydd Mercher dilynol wrth Gellionnen, y Parchedig J. D. Jones yn gwasanaethu. Cydymdeimlir yn fawr iawn â Mrs. Roberts yn ei galar, a hithau wedi cyrraedd ei 83 mlwydd oed ar ddydd y gladdedigaeth.

Nodion yr Eglwysi.

LLUNDAIN.—Cyferfydd yr Eglwys Undodaidd Gymraeg yn Eglwys Undodaidd Highgate, ger Archway Tube Station, ar y Sul cyntaf a'r trydydd ym mhob mis am 6 o'r gloch. Ar Ragfyr 15 cafwyd Gwasanaeth Cymundeb am y tro cyntaf yn hanes ein heglwys, y Parchedig T. L. Jones yn gweinyddu. Yr oedd nifer da yn bresennol. Cawsom ysbrydiaeth wrth wrando anerchiad Miss Sali Davies (Caeronnen) ar y Sul cyntaf yn 1947. Dangosodd i ni'r problemau sy'n ein hwynebu, ac anogodd ni fel eglwys i rodio mewn menter a ffydd yn ystod y flwyddyn fel y bydd i ni wneud gwaith Duw ymhlith Undodiaid Cymraeg a Chymry eraill sydd yn Llundain. Diolchwn yn fawr iddi am ei geiriau ac am ddod atom. Hi yw'r ddynes gyntaf i siarad o'n pulpud. Trefn y dyfodol—Mawrth, y Sul cyntaf, y Parchedig Noel James, B.A. Y trydydd Sul, y Parchedig T. L. Jones.

ABERYSTWYTH.—Derbyniodd ein gweinidog, y Parch. W. Priestley Phillips, M.A., alwad unfryd-unfarn cynulleidfa Undodaidd Evesham i ddod i'w bugeilio, ac atebodd yn gadarnhaol. Bydd felly yn ein gadael tua diwedd mis Ebrill. Bydd ei golli yn ergyd trwm i'r gynulleidfa fechan yma, ond hyderwn y daw rhywun eto cyn hir i lanw ei le. Dymunwn iddo bob daioni yn ei faes newydd.

CAPEL Y FADFA.—Daeth nifer luosog ynghyd a chafwyd tair awr hwylus i'r eithaf yn y Noson Lawen ar Ionor 2. Gofalodd y chwiorydd fod digonedd o bethau blasus ar y byrddau, ac eisteddodd mwy nag arfer i gyfranogi ohonynt. Y tê drosodd, cyflwynwyd gwobrwyon o lyfrau i'r plant am gadw yr ysgol Sul. Mr. Inver Davies, arolygydd yr ysgol Sul, a oedd wrth y gwaith hwn, a gwasanaethodd Mr. Evan Davies, Maespwll, fel Tad Nadolig. Cafwyd hwyl fawr gyda'r gwaith. Adroddwyd a chanwyd gan y plant ac eraill. Siaradwyd yn fuddiol gan y Cynghorwr Evan Davies, Ffatri Crugeryr, y Parchedig E. O. Jenkins, a Mr. E. Lloyd Jones, Pantybryn.

RHYDYGWIN.—Ionor 31, cynhaliwyd y Sosial flynyddol yn Festri'r Capel. Huliwyd y byrddau heb brinder gan rai o wragedd ffyddlon yr eglwys, a boddlonwyd pawb. Gwnaeth Miss Jones, Wernfeilig, a Miss Jones, Aldergate, rannu llyfrau drudfawr i'r ieuainc a fu yn ffyddlon drwy'r flwyddyn ddiwethaf gyda'r Ysgol Sul. Yr oedd pedwar o'r llyfrau yn rhoddedig gan Mrs. Hughes, Banc, am bresenoldeb cyflawn. Yna awd drwy raglen fer gan y plant. 'Rôl hynny bu y rhai mewn oed yn amlygu eu gwybodaeth gyffredinol drwy ateb cwestiynau. Caed ganddynt hefyd sylwadau ar sefyllfa'r achos yn y lle. Wrth yr organ yr oedd Miss May Davies, Maesffynnon Cottage. Ymadawodd pawb wedi eu mwynhau eu hunain.

J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.